# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 10 GORFFENNAF 2017

**Yn bresennol**:-

**Aelod Etholedig:-** Y Cynghorydd Dewi Roberts.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau**:- Aled Jones (Aelod Annibynnol) a Mr Richard Parry Hughes (Aelod Pwyllgor Cymuned)

Croesawyd y Cynghorydd Dewi Roberts i'w gyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ionawr, 2017 fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2016-2017

Cyflwynwyd – drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2016-2017. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen.

Nodwyd na chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y pwyllgor am benderfyniad yn ystod y flwyddyn, ond y gallai un o'r cwynion a restrwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad gael ei chyfeirio at sylw'r pwyllgor maes o law.

Cyfeiriwyd at ddau wall bychan yn y fersiwn Saesneg o'r rhan o'r adroddiad sy'n cyfeirio at waith y pwyllgor yn ystod 2016-2017, sef:-

<u>Goddefebau</u> – angen dileu'r frawddeg '*Both applications were turned down'* yn yr ail baragraff.

<u>Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru</u> – camsillafiad o'r gair '*request'* yn y frawddeg olaf.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r drafft o adroddiad blynyddol gyda'r mân gywiriadau a nodwyd, a'i gyflwyno i gyfarfod 5 Hydref o'r Cyngor.**

## 4. TREFN DATRYS LEOL AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn ceisio cefnogaeth y pwyllgor i Drefn Datrys Lleol Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

Croesawyd y protocol fel dull o geisio datrys cwynion lefel isel am aelodau yn lleol, ond mynegwyd peth pryder nad oedd cyfnod penodol o amser wedi'i bennu ar gyfer y broses.

Cefnogwyd argymhelliad i annog Cynghorau Tref a Chymuned i fabwysiadu trefn o'r fath. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol gofyn i'r cynghorau hynny adrodd yn ôl i ddweud a ydynt wedi penderfynu derbyn y canllawiau ai peidio.

**PENDERFYNWYD cefnogi Trefn Datrys Lleol Un Llais Cymru ac annog Cynghorau Tref a Chymuned i fabwysiadu trefn o'r fath.**

## 5. DISGRIFIADAU RÔL AELODAETH PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi copi o'r adroddiad ar ddisgrifiadau rolau aeth gerbron y Cyngor llawn ar 15 Mehefin ynghyd â chopi o'r Swydd Ddisgrifiadau perthnasol i'r Pwyllgor Safonau.

Gofynnwyd i'r swyddogion roi gwybod i'r aelodau pan fydd yn amser iddynt arwyddo'r swydd ddisgrifiadau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 6. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor gynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r pwyllgor yn ystod 2016-17 ac ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2017-18.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y swyddogaethau a restrwyd yng ngholofn gyntaf yr hunan asesiad gan nodi pa asesiad a gredai oedd yn berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:-

- <u>Categori 1</u> – Tystiolaeth bod y pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol iawn yn cyflawni'r swyddogaethau, neu yn achos tasgau penodol, nad yw'r angen i weithredu wedi codi.

- <u>Categori 2</u> – Tystiolaeth bod y pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol, gan gynnal yr un safon â llynedd.

- <u>Categori 3</u> – Tystiolaeth bod y pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth, ond bod angen rhoi sylw pellach.

- <u>Categori 4</u> – Dim tystiolaeth bod y pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth a bod sail i awgrymu bod angen rhoi sylw i'r maes.

Eglurwyd hefyd:-

- Bod angen nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r categori mae'r pwyllgor yn ei ddyfarnu.
- O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi'r dystiolaeth, gallai'r pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau pellach sydd angen eu cymryd, os o gwbl.
- Y byddai unrhyw awgrymiadau am gamau pellach yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y pwyllgor i'r dyfodol.

Nodwyd y dylai rhaglen waith 2016-2017 (Atodiad 2 i'r adroddiad) gynnwys y rheswm dros beidio cynnal cyfarfod o'r pwyllgor ar 27 Mawrth, 2017.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i waith (ychwanegiadau i'r ddogfen mewn llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu):-**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | TYSTIOLAETH | CAMAU PELLACH |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau** | **2** | **Mae'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill**<br><br>**Nifer fechan iawn o gwynion sy'n dod gerbron.**<br><br>**Darperir rhaglen anwytho ar gyfer aelodau newydd.** | **Cadw golwg ar batrymau cwynion.** |
| **Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad** | **1** | **Cefnogi rhaglen anwytho ar gyfer y Cyngor newydd.**<br><br>**Mae bron pob aelod wedi bod yn y sesiynau byr ar y Cod Ymddygiad ar y dyddiau anwytho sy'n cyflwyno'r hanfodion i'r aelod. Mae tua 20 aelod wedi mynychu hyfforddiant pellach ac mae rhagor o hyfforddiant i ddod ym mis Medi.** | **Y pwyllgor i ystyried y data adborth o'r sesiynau hyfforddiant a thargedu yn effeithiol ar sail hynny. Dylai'r adroddiad meintiol hefyd nodi pa ganran o'r aelodau sydd wedi derbyn yr hyfforddiant.**<br><br>**Ystyried dulliau o gynyddu diddordeb aelodau yn y pwnc.**<br><br>**Y pwyllgor i dderbyn adroddiad ar sut mae aelodau cymuned a sir yn cael eu hyfforddi gyda'r bwriad o lunio cynllun fydd yn defnyddio dulliau hyfforddi llai confensiynol.** |
| **Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad** | **2** | **Rhoddwyd ystyriaeth i ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn.** | **Ystyried os oes angen ystyriaethau mwy lleol ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad** | **2** | **Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau.**<br>**Derbyn adroddiadau blynyddol gan yr Ombwdsmon a Phanel Dyfarnu Cymru.**<br>**Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir.**<br>**Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.** | **Edrych ar y dull o adrodd ar y cofrestrau buddiannau / lletygarwch a cheisio cael gwell dealltwriaeth o beth yw'r amgylchedd buddiannau a lletygarwch. Ydi'r arweiniad yn glir ar hyn?**<br><br>**Y pwyllgor i dderbyn adroddiad ar y protocolau buddiannau / lletygarwch drafft. Dylai'r adroddiad gynnwys enghreifftiau o'r mathau o roddion sy'n briodol / amhriodol gan edrych hefyd oes yna batrymau o ran pwy sydd wedi rhoi rhoddion, ayb.** |
| **Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad** | **2** | **Bod mewnbwn yn cael ei roi i'r hyfforddiant.**<br><br>**Y sesiynau anwytho a hefyd y 2-3 cwrs sydd wedi'u rhedeg. Dylid nodi hefyd ei bod yn flwyddyn etholiad.** | **Rhaglen Hyfforddiant newydd a dilyn hwn ymhellach.**<br><br>**Edrych ar yr holl gyfundrefn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad.** |
| **Rhoi goddefebau i aelodau** | **1** | **Ymdriniwyd â cheisiadau am oddefebau gan weithredu ar sail wrthrychol a phriodol.** | |
| **Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon** | **Amherthnasol** | **Ni chyfyd angen am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn.** | |
| **Awdurdodi'r Swyddog** | **Amherthnasol** | **Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath.** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad** | | | |
| **Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned** | | **Cyfathrebwyd gyda'r Cynghorau Cymuned i'w hysbysu o'r newidiadau i'r Cod a threfnwyd hysbyseb ar y cyd â nifer ohonynt.** | **Edrych ar ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a datblygu'r berthynas gyda chynghorau cymuned.** |

**(b) Cymeradwyo'r rhaglen waith canlynol ar gyfer 2017-2018, gyda'r awgrymiadau am eitemau sy'n bwydo trwodd o'r camau pellach a nodwyd dan (a) uchod:-**

**<u>10 Gorffennaf, 2017</u>**

**Adroddiad Blynyddol**
**Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith**
**Honiadau yn erbyn aelodau**
**Trefn Datrys Lleol Un Llais Cymru**

**<u>2 Hydref, 2017</u>**

**Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
**Honiadau yn erbyn aelodau**
**Adolygiad Protocolau**

**<u>22 Ionawr, 2018</u>**

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
**Cofrestr Datgan Buddiant**
**Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu**
**Honiadau yn erbyn aelodau**

**<u>27 Mawrth, 2018</u>**

**Hunan Arfarniad a Rhaglen Waith**
**Hyfforddiant**

## 7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Awgrymwyd bod lle i ddadansoddi'r cwynion hyn ymhellach er mwyn gweld oes patrwm o yn bodoli o ran y mathau o feysydd sy'n achosi problemau yng Ngwynedd

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2016.

Nodwyd y cynhaliwyd cyfarfod pellach o'r fforwm ym mis Ebrill, ond na dderbyniwyd y cofnodion hyd yma.

Nodwyd y dylai'r fforwm gyhoeddi dyddiadau eu cyfarfodydd yn ddigon buan i'r mynychwyr allu bod yn bresennol.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at eitem 6 o'r cofnodion – Cofrestr o Ddiddordebau, gan nodi bod buddiannau cynghorwyr Gwynedd bellach yn cael eu cyhoeddi drwy'r system Modern Gov ar wefan y Cyngor.  Gan gyfeirio at y ffaith nad yw meddalwedd Modern Gov yn dangos opsiwn Cymraeg i alluogi aelodau i lenwi eu cofrestr safonol ar-lein, pwysleisiwyd bod dyletswydd ar yr holl gynghorau dan y ddeddf i gyhoeddi popeth yn ddwyieithog a'i bod yn annheg i'r cynghorau wneud y pwynt ei bod yn rhy ddrud i dalu i'r cwmni i ddiweddaru'r meddalwedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2014 - 2016

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer y blynyddoedd 2014-2015 a 2015-2016 a gyhoeddwyd gyda'i gilydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.15pm.